# Marw mewn Tlodi yng Nghymru 2024




Marie Curie
CYMRU



# Cyflwyniad

MAE tlodi wedi bod yn broblem barhaus yng Nghymru ers degawdau. Yn 2024, mae gan Gymru y gyfradd tlodi uchaf o holl wledydd y DU unwaith eto. Mae adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree *UK Poverty 2024* yn nodi cyfradd tlodi gyfartalog yng Nghymru o 22%.[1] Nododd y Social Metrics Commission (y defnyddir ei ddiffiniad yn nadansoddiad Marie Curie o'r rhai sy'n marw mewn tlodi) gyfradd tlodi o 23% yng Nghymru.[2]

Gwyddom nad yw tlodi wedi'i wasgaru'n gyfartal ar draws y boblogaeth. Mae rhieni sengl, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl sy'n byw ag anabledd ymhlith y grwpiau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o fyw mewn tlodi. Mae data'r DU a gyflwynir isod yn dangos bod yr annhegwch hwn yn cael ei ailadrodd ymhlith y rheini yn eu blwyddyn olaf o fywyd.

Mae'r berthynas rhwng iechyd a chyfoeth wedi'i dogfennu'n dda ac mae'n parhau hyd ddiwedd oes. Mae pobl mewn tlodi yn fwy tebygol o brofi anghydraddoldebau iechyd trwy gydol eu hoes, yn fwy tebygol o fod â chyflyrau iechyd hirdymor ac yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Gall afiechyd hefyd yrru tlodi. Mae pobl sy'n byw gydag anabledd neu'r rhai sydd â chyflwr iechyd hirdymor (gan gynnwys salwch terfynol) yn llai tebygol o fod mewn gwaith cyflogedig, neu os ydynt, yn debygol o gael eu talu llai.

Gall salwch terfynol achosi gostyngiad sylweddol i incwm aelwyd, os oes angen i'r person â salwch terfynol neu aelod arall o'r cartref leihau neu roi'r gorau i weithio oherwydd iechyd neu gyfrifoldebau gofal. Ar yr un pryd, gall gael effaith sylweddol ar wariant, gyda chostau fel ynni, trafnidiaeth a gofal plant yn aml yn cynyddu'n aruthrol.

Yn 2021, comisiynodd Marie Curie y Ganolfan Ymchwil Polisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Loughborough i archwilio nifer y bobl sy'n marw mewn tlodi yn y DU bob blwyddyn. Arweiniodd hyn at adroddiad pwysig Marie Curie, *Marw mewn Tlodi*, a gyhoeddwyd yn 2022, a nododd canfyddiadau a chyfres o argymelliadau ar gyfer Cymru.

Mae adroddiad diweddaraf Marie Curie yn seiliedig ar ddadansoddiad pellach, gan roi diweddariad i'r dadansoddiad o dlodi gan ddefnyddio ffigurau o 2023, ac mae hefyd yn amcangyfrif lefelau tlodi tanwydd a brofir gan bobl ar ddiwedd eu hoes am y tro cyntaf.[3, 4, 5, 6]

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau ar gyfer Cymru. Mae'n datgelu graddfa tlodi diwedd oes, nad yw wedi newid fawr ddim ers 2019, ac mae'n dangos yn glir y risg uwch o dlodi a brofir gan bobl o oedran gweithio a phensiynwyr yn eu blwyddyn olaf o fywyd.

Mae gormod o bobl yn dal i farw mewn tlodi yng Nghymru. Nid yw hyn yn anochel. Mae miloedd o bobl yn methu â gwneud y mwyaf o'r amser sydd ganddynt ar ôl oherwydd biliau cynyddol a phryderon cyson am sut i gael dau ben llinyn ynghyd. Rhaid i lunwyr polisi, darparwyr gwasanaethau a gwasanaethau gofal iechyd ganolbwyntio eu sylw ar y caledi ariannol sy'n wynebu pobl â salwch terfynol a'u teuluoedd.

Rhaid i'r adroddiad hwn a'i argymelliadau fod yn gatalydd i roi atebion ar waith sy'n helpu pobl sy'n marw yng Nghymru i osgoi treulio eu dyddiau olaf mewn tlodi.

## Canfyddiadau allweddol: Cymru

- Bu farw 6,262 o bobl mewn tlodi yng Nghymru yn 2023 – 17% o'r holl rai a fu farw. Nid yw'r ffigwr hwn wedi newid fawr ddim ers 2019.
- Mae gan Gymru'r gyfran uchaf o bobl o oedran gweithio sy'n profi tlodi yn ystod 12 mis olaf eu hoes o bob un o bedair gwlad y DU, sef 30%.
- Mae pobl o oedran gweithio mewn mwy o berygl o fod mewn tlodi ar ddiwedd eu hoes na phensiynwyr; mae'r gyfradd tlodi yn cynyddu 7% ar gyfer pobl o oedran gweithio yn ystod 12 mis olaf eu hoes.
- Mae pobl ym Mlaenau Gwent, Caerdydd, Casnewydd a Merthyr Tudful yn y perygl mwyaf o farw mewn tlodi.
- Er bod y sefyllfa wedi gwella'n gymedrol ar gyfer pensiynwyr ers 2019, a bod llai ohonynt yn marw mewn tlodi, mae'r sefyllfa ar gyfer pobl o oedran gweithio yn fwy cymysg. Cynyddodd cyfran y bobl o oedran gweithio a fu farw mewn tlodi mewn deg awdurdod lleol.
- Yn 2022, bu farw mwy nag un rhan o bump o bobl â salwch terfynol mewn tlodi tanwydd yng Nghymru.

## Argymelliadau

Dylai Llywodraeth Cymru:

1. Gynnwys pobl gyda salwch terfynol yn y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor newydd.
2. Cyflwyno cymorth ariannol ychwanegol i bobl gyda salwch terfynol i helpu gyda chostau ynni.
3. Gweithio gyda byrddau iechyd lleol i sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn atgyfeirio pobl gyda salwch terfynol a'u gofalwyr at gyngor ar fudd-daliadau lles yn rheolaidd ac yn effeithiol.
4. Cyhoeddi gwerthusiad yr ymgyrch "Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi". Os profir ei fod yn llwyddiannus o ran cynyddu nifer y bobl gymwys sy'n hawlio budd-daliadau, gwneud yr ymgyrch yn barhaol, ochr yn ochr â chamau rhagweithiol i gynyddu incwm pobl i'r eithaf.
5. Ofyn i'r Unedau Data Cydraddoldeb gyhoeddi data a dangosyddion ar yr anghydraddoldebau cyflogaeth, incwm a chyfoeth a brofir gan bobl â nodweddion gwarchodedig, a'r effaith a gaiff hyn ar dlodi ar ddiwedd oes.

# Y darlun yng Nghymru

YN 2023, **o'r rhai a fu farw yng Nghymru, bu farw 17% ohonynt mewn tlodi.**

Mae bod yn eu blwyddyn olaf o fywyd yn cynyddu'r risg o brofi tlodi ar gyfer pobl o oedran gweithio a phensiynwyr – er bod y risg yn llawer uwch ar gyfer y rhai o oedran gweithio (Tabl 1).

**Tabl 1: Nifer a chyfran y bobl yn marw mewn tlodi yng Nghymru 2023**

| | Ym mlwyddyn olaf eu bywyd | | Ddim ym mlwyddyn olaf eu bywyd | |
|---|---|---|---|---|
| | n | % | n | % |
| Oedran gweithio | 1,400 | 30% | 460,900 | 24% |
| Pensiynwyr | 4,900 | 17% | 93,100 | 15% |

**Mae gan Gymru'r gyfran uchaf o bobl o oedran gweithio sy'n profi tlodi yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd – 30%**.

**Tabl 2: Nifer a chyfran y bobl yn marw mewn tlodi yng ngwledydd y DU 2023**

| Gwlad | Oedran gweithio: Ym mlwyddyn olaf eu bywyd | | Pensiynwyr: Ym mlwyddyn olaf eu bywyd | |
|---|---|---|---|---|
| | n | % | n | % |
| Lloegr | 19,000 | 27% | 72,200 | 17% |
| Cymru | 1,400 | 30% | 4,900 | 17% |
| Yr Alban | 2,400 | 26% | 8,000 | 17% |
| Gogledd Iwerddon | 800 | 23% | 2,500 | 19% |

Ym mhob gwlad, mae'r gyfradd tlodi yn cynyddu ar gyfer pobl ym mlwyddyn olaf eu bywyd. Ond yng Nghymru y gwelir y cynnydd mwyaf yng nghyfradd tlodi pobl o oedran gweithio yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd.

**Tabl 3: Cynnydd yn y gyfradd tlodi ar gyfer y rhai ym mlwyddyn olaf eu bywyd o gymharu â'r rhai nad oeddent ym mlwyddyn olaf eu bywyd fesul gwlad: Oedran gweithio**

| Gwlad | Cynnydd yn y gyfradd tlodi |
|---|---|
| Lloegr | 6% |
| Cymru | 7% |
| Yr Alban | 6% |
| Gogledd Iwerddon | 5% |

Mae'r darlun yn gymysg ar draws Cymru. **Blaenau Gwent oedd â'r cyfraddau tlodi uchaf ar ddiwedd oes**, gyda 35% o bobl o oedran gweithio ac 20% o bobl oedran pensiwn yn profi tlodi yn eu blwyddyn olaf o fywyd. Roedd Blaenau Gwent ymhlith yr ugain awdurdod lleol yn y DU gyda'r ganran uchaf o bobl o oedran gweithio yn marw mewn tlodi.

**Tabl 4: Cyfran y bobl yn marw mewn tlodi yng Nghymru yn 2023**

| Awdurdod lleol | Canran y bobl o oedran gweithio mewn tlodi yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd | Canran y pensiynwyr mewn tlodi yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 35% | 20% |
| Caerdydd | 34% | 19% |
| Casnewydd | 34% | 19% |
| Merthyr Tudful | 34% | 19% |
| Abertawe | 33% | 18% |
| Castell-nedd Port Talbot | 33% | 18% |
| Rhondda Cynon Taf | 33% | 18% |
| Caerffili | 31% | 17% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 31% | 16% |
| Sir Ddinbych | 30% | 16% |
| Wrecsam | 30% | 16% |
| Torfaen | 30% | 16% |
| Ynys Môn | 29% | 15% |
| Sir Benfro | 29% | 15% |
| Sir Gâr | 29% | 15% |
| Conwy | 29% | 15% |
| Gwynedd | 28% | 15% |
| Ceredigion | 27% | 14% |
| Bro Morgannwg | 27% | 14% |
| Powys | 27% | 13% |
| Sir y Fflint | 26% | 13% |
| Sir Fynwy | 25% | 12% |

Ers adroddiad cyntaf *Marw mewn Tlodi* Marie Curie, nid yw'r darlun wedi newid fawr ddim yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae nifer y bobl sy'n marw mewn tlodi wedi gostwng ychydig iawn. Ymhlith pensiynwyr, mae pob awdurdod lleol wedi gweld gostyngiad cymedrol yn nifer y bobl sy'n profi tlodi yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd. Fodd bynnag, gwelodd deg awdurdod lleol gynnydd yng nghyfran y bobl o oedran gweithio a brofodd dlodi yn ystod eu blwyddyn olaf o fywyd.

**Tabl 5: Canran y bobl yn marw mewn tlodi yng Nghymru 2019 a 2023: Oedran gweithio**

| Canran mewn tlodi yn ystod 12 mis olaf bywyd fesul awdurdod lleol: Oedran gweithio | 2019 | 2023 | Newid |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 32.6% | 35.1% | 2.5% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 28.5% | 30.7% | 2.2% |
| Caerffili | 29.7% | 31.4% | 1.7% |
| Caerdydd | 36.2% | 34.4% | -1.8% |
| Sir Gâr | 28.4% | 28.8% | 0.4% |
| Ceredigion | 29.1% | 27.4% | -1.7% |
| Conwy | 28.9% | 28.6% | -0.3% |
| Sir Ddinbych | 29.7% | 30.4% | 0.7% |
| Sir y Fflint | 27.3% | 26.5% | -0.8% |
| Gwynedd | 30.3% | 28.4% | -1.9% |
| Ynys Môn | 29.2% | 29.0% | -0.2% |
| Merthyr Tudful | 31.3% | 33.6% | 2.3% |
| Sir Fynwy | 26.4% | 25.0% | -1.4% |
| Castell-nedd Port Talbot | 30.2% | 33.0% | 2.8% |
| Casnewydd | 33.4% | 34.2% | 0.8% |
| Sir Benfro | 29.1% | 28.9% | -0.2% |
| Powys | 28.0% | 26.5% | -1.5% |
| Rhondda Cynon Taf | 30.0% | 32.9% | 2.9% |
| Abertawe | 32.4% | 33.1% | 0.6% |
| Torfaen | 30.3% | 30.3% | 0.0% |
| Bro Morgannwg | 28.5% | 27.1% | -1.4% |
| Wrecsam | 31.0% | 30.3% | -0.7% |

**Tabl 6: Canran y bobl yn marw mewn tlodi yng Nghymru 2019 a 2023: Pensiynwyr**

| Canran mewn tlodi yn ystod 12 mis olaf bywyd fesul awdurdod lleol: Pensiynwyr | 2019 | 2023 | Newid |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 20.1% | 19.9% | -0.2% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 17.1% | 16.5% | -0.6% |
| Caerffili | 18.0% | 17.0% | -1.0% |
| Caerdydd | 22.7% | 19.3% | -3.4% |
| Sir Gâr | 17.1% | 15.1% | -2.0% |
| Ceredigion | 17.5% | 14.0% | -3.5% |
| Conwy | 17.4% | 14.9% | -2.5% |
| Sir Ddinbych | 18.0% | 16.3% | -1.7% |
| Sir y Fflint | 16.3% | 13.4% | -2.9% |
| Gwynedd | 18.4% | 14.8% | -3.6% |
| Ynys Môn | 17.6% | 15.2% | -2.4% |
| Merthyr Tudful | 19.1% | 18.7% | -0.4% |
| Sir Fynwy | 15.7% | 12.3% | -3.4% |
| Castell-nedd Port Talbot | 18.3% | 18.2% | -0.1% |
| Casnewydd | 20.6% | 19.2% | -1.4% |
| Sir Benfro | 17.6% | 15.2% | -2.4% |
| Powys | 16.8% | 13.4% | -3.4% |
| Rhondda Cynon Taf | 18.2% | 18.2% | 0.0% |
| Abertawe | 19.9% | 18.3% | -1.6% |
| Torfaen | 18.4% | 16.2% | -2.2% |
| Bro Morgannwg | 17.1% | 13.8% | -3.3% |
| Wrecsam | 18.9% | 16.2% | -2.7% |

## Pwy sy'n marw mewn tlodi?

Mae anghydraddoldeb yn parhau i ddylanwadu'n drwm ar ein bywydau o ddydd i ddydd a'n cymdeithas. O ganlyniad, mae grwpiau penodol mewn mwy o berygl o fyw a marw mewn tlodi. Oherwydd cyfyngiadau data, ni fu'n bosibl pennu sut mae anghydraddoldeb ar sail nodweddion gwarchodedig yn effeithio ar y risg o farw mewn tlodi yn benodol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n debygol iawn bod yr anghydraddoldebau a nodwyd o ddadansoddiad y DU hefyd yn wir yng Nghymru. Felly mae'r data a gyflwynir isod yn ddata ar lefel y DU.

### Rhyw

Mae menywod yn fwy tebygol o farw mewn tlodi na dynion. Yn 2023, roedd 29.5% o fenywod o oedran gweithio a fu farw wedi gwneud hynny mewn tlodi, o'i gymharu â 25.4% o ddynion. Mae hyn yn cynrychioli newid o'i gymharu â 2019. Ers hynny, mae menywod o'r oedran hwn wedi dod yn fwy tebygol o farw mewn tlodi, tra bod dynion wedi dod ychydig yn llai tebygol o farw.

Mae gwahaniaeth tebyg yn bodoli ymhlith pobl oedran pensiwn, er bod y cyfraddau tlodi yn is. Mae hyn yn debygol o fod yn gyfuniad o gynilion preifat, a'r 'bwlch Pensiwn y Wladwriaeth' sy'n parhau rhwng dynion a menywod.

### Teuluoedd gyda phlant dibynnol

Teuluoedd â phlant yw'r math o deulu sydd fwyaf tebygol o symud i dlodi am y ddwy flynedd cyn eu marwolaeth, heb fod mewn tlodi o'r blaen. Gallai hyn fod oherwydd cyfuniad o'r gostyngiad mewn incwm yn dilyn diagnosis terfynol, costau uwch sy'n gysylltiedig â phlant a'r ffaith nad yw'r hawl 30 awr lawn ar gael i blant iau y mae teuluoedd sy'n gweithio yn ei dderbyn.

### Ethnigrwydd

Mae pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn fwy tebygol o fod mewn tlodi drwy gydol eu hoes. Mae hyn yn adlewyrchu anfanteision yn y gymdeithas ehangach, gan gynnwys addysg,[7] gofal iechyd,[8] a chyflogaeth.[9] I rai grwpiau, mae'r ffigurau hyn yn eithriadol o uchel – amcangyfrifir bod cyfraddau tlodi ymhlith aelwydydd Bangladeshaidd, er enghraifft, mor uchel â 53%.[10] Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig yn rhannol â'r ffynonellau incwm sydd ar gael. Mae aelwydydd Bangladeshaidd yn dibynnu ar fudd-daliadau (ac eithrio Pensiwn y Wladwriaeth) am 20% o'u hincwm ar gyfartaledd, o'i gymharu â 7% o aelwydydd gwyn.[11]

O ystyried y man cychwyn hwn, nid yw'n syndod felly bod pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o farw mewn tlodi na phobl wyn. Oherwydd cyfyngiadau data, nid oedd y dadansoddiad a gynhaliwyd gan y Centre for Research in Social Policy yn gallu darparu dadansoddiad llawn o amcangyfrifon marw mewn tlodi yn ôl ethnigrwydd, ond hyd yn oed yn seiliedig ar gategorïau bras, mae effaith anghymesur amlwg: roedd 25% o'r bobl wyn o oedran gweithio rhwng 20–64 oed a fu farw wedi gwneud hynny mewn tlodi, o'i gymharu â 47% o bobl Ddu, 43% o bobl Asiaidd a 37% o bobl o hil gymysg neu ag ethnigrwydd arall, sy'n syfrdanol.

## Tlodi tanwydd

Mae ymchwil *Marw mewn Tlodi* eleni yn cynnwys dadansoddiad o dlodi tanwydd am y tro cyntaf. Costau ynni yw un o'r costau mwyaf a all gynyddu pan fydd rhywun ar ddiwedd eu hoes. Gall bil ynni person â salwch terfynol godi 75% ar ôl ei ddiagnosis.[12] Gall hyn fod mewn perthynas â'r angen i redeg dyfeisiau meddygol, yr angen i gynnal tymheredd corff penodol neu yn syml treulio mwy o amser gartref. Gall y gost o redeg crynhöwr ocsigen fod yn £65 y mis, peiriant dialysis yn £27 y mis a pheiriant anadlu yn £35 y mis.[13]

Mae diffiniadau tlodi tanwydd yn amrywio ar draws y DU. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae'r diffiniad o dlodi tanwydd a ddefnyddir yn yr Alban wedi'i gymhwyso:

Mae costau tanwydd i gynnal trefn wresogi foddhaol dros 10% o incwm yr aelwyd ar ôl costau tai, ac ar ôl costau tai, tanwydd, anabledd a gofal plant, mae'r incwm sy'n weddill yn llai na 90% o'r Safon Isafswm Incwm (MIS).[14]

**Yn 2022, bu farw mwy nag un rhan o bump o bobl â salwch terfynol mewn tlodi tanwydd yng Nghymru.** Ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful y gwelwyd y cyfraddau tlodi tanwydd uchaf ymhlith y rhai yn eu blwyddyn olaf o fywyd.

**Tabl 7: Cyfran y bobl yn marw mewn tlodi tanwydd fesul: Gwledydd y DU**

| Gwlad | Oedran gweithio | | Pensiynwr | |
|---|---|---|---|---|
| | Ym mlwyddyn olaf eu bywyd | Ddim ym mlwyddyn olaf eu bywyd | Ym mlwyddyn olaf eu bywyd | Ddim ym mlwyddyn olaf eu bywyd |
| DU | 22% | 19% | 20% | 18% |
| Cymru | 23% | 20% | 23% | 21% |
| Yr Alban | 21% | 18% | 20% | 18% |
| Gogledd Iwerddon | 24% | 21% | 27% | 24% |

**Tabl 8: Cyfran y bobl yn marw mewn tlodi tanwydd fesul awdurdod lleol 2022**

| Awdurdod lleol | Canran y bobl o oedran gweithio mewn tlodi yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd | Canran y pensiynwyr mewn tlodi yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd |
|---|---:|---:|
| Blaenau Gwent | 26% | 26% |
| Merthyr Tudful | 25% | 24% |
| Castell-nedd Port Talbot | 24% | 23% |
| Abertawe | 24% | 23% |
| Sir Ddinbych | 24% | 23% |
| Casnewydd | 24% | 23% |
| Caerdydd | 24% | 23% |
| Torfaen | 24% | 23% |
| Rhondda Cynon Taf | 24% | 23% |
| Caerffili | 24% | 23% |
| Sir Benfro | 23% | 22% |
| Wrecsam | 23% | 22% |
| Conwy | 23% | 22% |
| Ynys Môn | 23% | 22% |
| Sir Gâr | 22% | 21% |
| Gwynedd | 22% | 21% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 22% | 21% |
| Ceredigion | 22% | 21% |
| Powys | 22% | 21% |
| Bro Morgannwg | 21% | 20% |
| Sir y Fflint | 21% | 20% |
| Sir Fynwy | 21% | 19% |

# Casgliad ac argymelliadau

MAE gormod o bobl yn marw mewn tlodi yng Nghymru. Nid yw hyn yn anochel. Mae camau y gellir eu cymryd nawr i leihau'r straen ariannol a ddaw yn sgil diwedd oes a sicrhau bod pawb yn gallu byw cystal â phosibl, cyhyd â phosibl.

Er nad yw pob ysgogiad ar gyfer trechu tlodi ar gael i Lywodraeth Cymru o dan y setliad datganoli presennol, mae camau y gellir eu cymryd i gefnogi pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn well a lleihau'r nifer sy'n marw mewn tlodi.

Gellir a dylid defnyddio budd-daliadau a weinyddir yng Nghymru i atal pobl sy'n byw gyda salwch terfynol rhag cyrraedd pwynt o argyfwng ariannol yn ogystal â sicrhau bod cymorth mewn argyfwng yn diwallu eu hanghenion. Mae pobl o oedran gweithio mewn perygl arbennig o uchel o dlodi yn ystod blwyddyn olaf eu bywyd. Gall y gwahaniaeth hwn gael ei waethygu ymhellach gan anghydraddoldebau yn ein system nawdd cymdeithasol, sydd ar hyn o bryd yn darparu lefelau is o gymorth ariannol i bobl o oedran gweithio o'u cymharu â phensiynwyr. Er enghraifft, mae credyd pensiwn yn sicrhau isafswm incwm wythnosol o £218.15 ar gyfer aelwydydd person sengl, tra bod Credyd Cynhwysol yn darparu £393.34 y mis ar gyfer person sengl dros 25.[15] Wrth ddatblygu cymorth ychwanegol i bobl sy'n byw gyda salwch terfynol, dylai Llywodraeth Cymru geisio lleihau'r annhegwch hwn.

## Y Dreth Gyngor

Y Dreth Gyngor yw'r gost sefydlog fwyaf sydd gan y rhan fwyaf o aelwydydd ar ôl costau tai.[16] Yng Nghymru, y dreth gyngor Band D gyfartalog ar gyfer 2024-25 yw £2,024 y flwyddyn (£169 y mis).[17] Yn dilyn pasio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu rheoliadau cenedlaethol newydd ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae hyn yn rhoi cyfle i sicrhau bod pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn gymwys i gael gostyngiad y dreth gyngor.

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor newydd.

## Costau ynni

Mae dwy brif ffordd o leihau cyfraddau tlodi tanwydd: naill ai lleihau cost ynni neu roi mwy o arian ym mhocedi pobl. Pwerau cyfyngedig sydd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â mater costau ynni. Mae camau i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yn mynd rhagddynt drwy'r cynllun Nyth, a chroesewir cefnogaeth i gyflwyno tariff cymdeithasol. Fodd bynnag, yn y tymor byr i ganolig, gallai Llywodraeth Cymru gymryd camau i leihau tlodi tanwydd ymhlith pobl sy'n byw gyda salwch terfynol drwy daliadau cymorth uniongyrchol. Gellid gwneud hyn drwy lenwi'r bylchau yn y Taliad Tanwydd Gaeaf, gan ymestyn cymorth i bobl o oedran gweithio sydd â salwch terfynol ac i bobl oedran pensiwn â salwch terfynol sydd ar incwm isel ond nad ydynt yn gymwys i gael credyd pensiwn.

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cymorth ariannol ychwanegol i bobl sy’n byw gyda salwch terfynol i helpu gyda chostau ynni.

## Mynediad at fudd-daliadau

Nid oes digon o bobl yn hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt o hyd. I bobl sy'n byw gyda salwch terfynol, mae’n bosib y bydd eu ceisiadau am fudd-daliadau penodol yn cael eu rhoi ar lwybr carlam neu eu talu ar gyfradd uwch o dan reolau arbennig. Mae mynediad at gyngor ac arweiniad yn hanfodol i sicrhau bod pobl sy'n byw gyda salwch terfynol yn cael mynediad at yr holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd lleol i sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn atgyfeirio pobl sy’n byw gyda salwch terfynol a’u gofalwyr at gyngor ar fudd-daliadau lles yn rheolaidd ac yn effeithiol.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gwerthusiad yr ymgyrch “Hawliwch yr Hyn sy’n Ddyledus i Chi”. Os profir ei fod yn llwyddiannus o ran cynyddu nifer y bobl gymwys sy’n hawlio budd-daliadau, dylid gwneud yr ymgyrch yn barhaol, ochr yn ochr â chamau rhagweithiol i gynyddu incwm pobl i’r eithaf.

## Data

Mae ein dealltwriaeth o bwy sydd mewn mwy o berygl o farw mewn tlodi yn dibynnu ar ddata lefel y DU ar hyn o bryd. Er mwyn deall maint y broblem yn llawn yng Nghymru, rhaid i ni wella’r data sydd ar gael.

**Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i’r Unedau Data Cydraddoldeb gyhoeddi data a dangosyddion ar yr anghydraddoldebau cyflogaeth, incwm a chyfoeth a brofir gan bobl â nodweddion gwarchodedig, a’r effaith a gaiff hyn ar dlodi ar ddiwedd oes.



# Cyfeirnodau


1. Sefydliad Joseph Rowntree (2024) UK Poverty 2024
2. Social Metrics Commission (2023) Measuring Poverty 2024: A report of the Social Metrics Commission
3. Mae'r dadansoddiad tlodi tanwydd yn defnyddio data o 2022
4. Marie Curie (2024) *Marw Mewn Tlodi 2024* https://www.mariecurie.org.uk/policy/poverty
5. Centre for Research in Social Policy (2024) *Poverty at the end of life in the UK in 2023* https://www.mariecurie.org.uk/policy/poverty
6. Centre for Research in Social Policy (2024) *Fuel poverty at the end of life in the UK* https://www.mariecurie.org.uk/policy/poverty
7. Gov.uk, Ethnicity Facts and Figures – Education, Skills, and Training [Cyrchwyd 20/09/2024]
8. Gov.uk, Ethnicity Facts and Figures – Health [Cyrchwyd 20/09/2024]
9. Gov.uk, Ethnicity Facts and Figures – Employment [Cyrchwyd 20/09/2024]
10. Sefydliad Joseph Rowntree (2024) UK Poverty 2024
11. Gov.uk, Ethnicity Facts and Figures – Sources of Household Income [Cyrchwyd 20/09/2024]
12. Marie Curie (2023) *One charge too many: The impact of rising energy costs on people at the end of life* https://www.mariecurie.org.uk/globalassets/media/documents/policy/dying-in-poverty/k406-povertyenergyreport-finalversion.pdf [Cyrchwyd 25/09/24]
13. Ibid.
14. I gael esboniad llawn o'r gwahanol ddiffiniadau o dlodi tanwydd a ddefnyddir ar draws y DU a'r rhesymeg dros ddefnyddio diffiniad yr Alban ar gyfer y dadansoddiad hwn gweler adroddiad llawn Marw mewn Tlodi y DU.
15. https://www.gov.uk/government/news/pension-credit-what-you-need-to-know--2 / https://www.gov.uk/universal-credit/what-youll-get [Cyrchwyd 07/10/24]
16. Cyngor ar Bopeth (2022) Dyledus: Profiadau o ôl-ddyledion treth gyngor yng Nghymru https://www.citizensadvice.org.uk/Global/CitizensAdvice/Wales/Wales%20Policy%20and%20Campaigns/Indebted_%20Experiences%20of%20council%20tax%20arrears%20in%20Wales.pdf [Cyrchwyd 26/09/24]
17. Ystadegau ac Ymchwil Llywodraeth Cymru "Lefelau'r Dreth Gyngor: Ebrill 2024 i Fawrth 2025" https://www.gov.wales/council-tax-levels-april-2024-march-2025 [Cyrchwyd 26/09/24]

# Atodiad 1: Tablau data ychwanegol

**Cynnydd yn y gyfradd tlodi ar gyfer y rhai ym mlwyddyn olaf eu bywyd o gymharu â'r rhai nad oeddent ym mlwyddyn olaf eu bywyd fesul gwlad: Pensiynwyr**

| Gwlad | Cynnydd yn y gyfradd tlodi |
|---|---|
| Lloegr | 2.7% |
| Cymru | 2.6% |
| Yr Alban | 2.8% |
| Gogledd Iwerddon | 2.5% |

**Cynnydd yn y gyfradd tlodi ar gyfer y rhai ym mlwyddyn olaf eu hoes o gymharu â'r rhai nad oeddent ym mlwyddyn olaf eu bywyd fesul awdurdod lleol**

| Awdurdod Lleol | Cynnydd yn y Gyfradd Tlodi: Oedran gweithio | Cynnydd yn y Gyfradd Tlodi: Oedran pensiwn |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 6.3% | 2.6% |
| Caerdydd | 6.7% | 2.7% |
| Casnewydd | 6.4% | 2.6% |
| Merthyr Tudful | 6.2% | 2.5% |
| Abertawe | 6.2% | 2.5% |
| Castell-nedd Port Talbot | 6.2% | 2.5% |
| Rhondda Cynon Taf | 6.3% | 2.5% |
| Caerffili | 6.0% | 2.4% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 6.0% | 2.3% |
| Sir Ddinbych | 5.7% | 2.2% |
| Wrecsam | 6.0% | 2.3% |
| Torfaen | 5.9% | 2.3% |
| Ynys Môn | 5.7% | 2.2% |
| Sir Benfro | 5.7% | 2.1% |
| Sir Gâr | 5.7% | 2.1% |
| Conwy | 5.6% | 2.1% |
| Gwynedd | 5.7% | 2.1% |
| Ceredigion | 5.6% | 2.0% |
| Bro Morgannwg | 5.8% | 2.1% |
| Powys | 5.5% | 2.0% |
| Sir y Fflint | 5.6% | 2.0% |
| Sir Fynwy | 5.4% | 1.9% |

Am ragor o wybodaeth am yr adroddiad hwn a'i ganfyddiadau, cysylltwch â:


## Natasha Davies

Uwch Reolwr Polisi, Cymru

natasha.davies2@mariecurie.org.uk


I weld yr adroddiad llawn a'r argymelliadau ewch i:

Bydd hyn yn mynd â chi i **mariecurie.org.uk/policy/poverty**

Marie Curie yw prif elusen diwedd oes y DU.
Pwy bynnag ydych chi, beth bynnag yw'ch salwch,
rydyn ni gyda chi tan y diwedd.


Rhif cofrestru elusen 207994 (Cymru a Lloegr), SC038731 (Yr Alban) N417


Marie Curie
CYMRU